Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwybodaeth i Ymgeiswyr

Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg

Penodi 2 Aelod (2019-2022)

Dyddiad Cau: 02/09/2019

Rheoleiddiwyd gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus

Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Y Cefndir

Sefydlwyd swydd Comisiynydd y Gymraeg ("y Comisiynydd") o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("y Mesur"). Ceir mwy o fanylion am swyddogaethau'r Comisiynydd ar y wefan: http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/cymraeg/Pages/Hafan.aspx

Mae'r Mesur hefyd yn darparu ar gyfer sefydlu Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg ("y Panel Cynghori") sydd wedi eu penodi gan Weinidogion Cymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn awyddus i benodi hyd at dau aelod newydd i'r Panel Cynghori am gyfnod o dair blynedd. Bydd yr aelod/au newydd yn ymuno â'r 3 aelod sydd eisoes ar y Panel. Mae'r 3 Aelod hynny wedi'u penodi tan 31 Mawrth 2021.

Rôl a Chyfrifoldebau'r Panel Cynghori

Mae'r Mesur yn pennu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau, i'r graddau y bo hynny'n ymarferol, bod gan y Panel Cynghori o leiaf 3, ond dim mwy na 5, aelod ar unrhyw adeg.

Mae aelodau'r Panel Cynghori yn ffynhonnell o gyngor strategol i'r Comisiynydd ar faterion sy'n berthnasol i swyddogaethau'r Comisiynydd. Yn benodol, mae rôl y Panel yn cynnwys:

- Rhoi cymorth a chyngor i'r Comisiynydd mewn perthynas â swyddogaethau'r Comisiynydd yn unol â'r Mesur, a gweithredu, lle bo angen, fel 'cyfaill beirniadol'.
- Bod yn fforwm lle caiff materion sy'n berthnasol i swyddogaethau'r Comisiynydd eu trafod.
- Ar gais y Comisiynydd, ystyried dogfennau penodol a luniwyd gan y Comisiynydd a mynegi barn am y dogfennau hynny.

Ni fwriedir i'r Panel gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Comisiynydd o ddydd i ddydd, ac ni fwriedir iddo ychwaith fod â phroffil cyhoeddus amlwg. Nid yw'r Comisiynydd yn atebol i'r Panel Cynghori, ond bydd ei drafodaethau â'r Panel yn cael ei adlewyrchu yn ei gwaith.

Manyleb y Personau

Rhaid i Aelodau'r Panel:

- fedru gweithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm;
- medru cynnig cyngor i gynorthwyo prosesau creu polisi a gwneud penderfyniadau;
- bod â'r gallu i asesu amryw o safbwyntiau a buddiannau ac arddel barn annibynnol
- medru cwestiynu'n briodol agwedd y Comisiynydd at unrhyw fater a bod yn ffynhonnell allanol o her a safbwynt ffres;
- bod â dealltwriaeth glir o faterion cydraddoldeb ac ymrwymiad iddynt, ac i herio arferion gwahaniaethol lle bo hynny'n briodol; a

- bod â dealltwriaeth glir o 'Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus' Nolan ac ymrwymiad iddynt.

Mae Rheoliadau Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg (Penodi) 2012 yn gwneud darpariaethau penodol am benodi'r Panel. Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wrth iddynt benodi aelodau'r Panel Cynghori i roi ystyriaeth i'r ffaith ei bod yn ddymunol i wybodaeth a phrofiad y Comisiynydd ac aelodau'r Panel Cynghori, gyda'i gilydd, gynnwys gwybodaeth a phrofiad o'r materion canlynol:

- llywodraethu corfforaethol,
- arfer swyddogaethau sydd wedi eu rhoi gan neu o dan ddeddfiad,
- hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg neu unrhyw iaith arall,
- cysylltiadau cyhoeddus,
- cyfundrefnau rheoleiddiol,
- gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau yn y sectorau preifat, cyhoeddus neu wirfoddol.

Wedi ystyried arbenigedd a phrofiad y Comisiynydd presennol a'r 3 aelod presennol o'r Panel, mae Gweinidogion Cymru yn dymuno bod gan o leiaf un o'r aelodau newydd brofiad o weithio mewn partneriaeth â sefydliadau yn y sector gwirfoddol.

Oherwydd y cysylltiad agos rhwng rôl y Panel Cynghori a swyddogaethau'r Comisiynydd, mae'n hanfodol i aelodaeth y Panel Cynghori gynnwys personau â gwybodaeth o'r Gymraeg, ac sy'n gallu ei defnyddio.

Cymhwysedd

Dylai ymgeiswyr fod yn bobl sy'n ymddwyn bob amser mewn modd a fydd yn ennyn hyder y cyhoedd yn eu gallu i gyflawni swyddogaethau'r rôl.

Yn benodol, mae gofyn i ymgeiswyr ddatgan a ydynt yn gwybod am unrhyw beth yn eu bywydau preifat neu broffesiynol a allai achosi embaras iddynt hwy, y Comisiynydd, neu Weinidogion Cymru pe bai'n dod yn hysbys ar ôl iddynt gael eu penodi.

Yn unol â pharagraff 10 o Atodlen 4 i'r Mesur, mae person yn cael ei anghymhwyso rhag bod yn aelod o'r Panel Cynghori os yw'r person hwnnw —

(a) yn Aelod Seneddol;
(b) yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru;
(c) yn aelod o Dribiwnlys y Gymraeg;
(ch) yn aelod o staff y Comisiynydd.

Nid yw'r cyfyngiad hwn yn rhwystro'r personau hyn rhag gwneud cais, ond ni ellir eu penodi hyd oni fyddant wedi ymddiswyddo.

Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg

Yr Ysgrifenyddiaeth

Y Comisiynydd fydd yn trefnu cyfarfodydd ac yn darparu Ysgrifenyddiaeth y Panel.

Telerau'r Penodiad

Gweinidogion Cymru sy'n penodi. Ar ôl i aelodau'r Panel gael cynnig penodiad a'i dderbyn, byddant yn ddarostyngedig i'r telerau a'r amodau yn y llythyr penodi.

Mae'r penodiad am gyfnod o dair blynedd a chaiff ei wneud gan Weinidogion Cymru.

Mae'r seiliau dros ddiswyddo wedi'u nodi ym Mharagraff 8(i) o Atodlen 4 i'r Mesur. Gall Gweinidogion Cymru ddiswyddo aelod o'r Panel os nad ydynt yn ffit, yn gallu neu'n fodlon i gyflawni eu dyletswyddau fel aelod o'r Panel. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiynydd cyn diswyddo aelod o'r Panel.

Ymrwymiad Amser

Disgwylir i'r aelodau fod ar gael i weithio o leiaf 6-8 diwrnod bob blwyddyn. Mae'r Panel Cynghori yn cyfarfod hyd at 4 gwaith y flwyddyn a disgwylir hefyd i aelodau'r Panel neilltuo amser i baratoi ar gyfer y cyfarfodydd. Gallai'r patrwm hwn amrywio dros y 3 blynedd yn ôl llwyth gwaith y Comisiynydd.

Lleoliad y Cyfarfodydd

Bydd cyfarfodydd y Panel yn cael eu cynnal yn un o swyddfeydd y Comisiynydd (Caerdydd, Caernarfon, Caerfyrddin, neu Rhuthun). Mae'n bosib y gellid ymuno â'r cyfarfodydd trwy fideo gynhadledd.

Tâl Cydnabyddiaeth

Mae'r aelod yn swydd-ddeiliad. Ni thelir cyflog na phensiwn ar gyfer y penodiad. Caiff aelodau'r Panel dâl o £198 y dydd gan gynnwys diwrnodau hyfforddiant. Gellir adolygu'r ffi hwn o bryd i'w gilydd.

Ceir hawlio costau teithio ac unrhyw gostau rhesymol eraill sy'n codi wrth gyflawni gwaith y Panel Cynghori oddi wrth y Comisiynydd o fewn y terfynau cydnabyddedig.

Cymorth i Aelodau Anabl

Caiff pob addasiad rhesymol ei wneud er mwyn galluogi aelodau i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg

Y Broses Ddethol

Cadeirydd y panel dethol fydd Llywodraeth Cymru. Mae'r ddau aelod arall o'r panel i'w cadarnhau

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y bydd eich cais yn cael ei roi ar restr hir cyn cael ei roi i'r panel sy'n llunio rhestr fer i'w ystyried. Dylech fod yn ymwybodol efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan mewn sefyllfa fel hon.

Rydym yn rhagweld y cynhelir cyfweliadau ym mis Medi 2019 (dyddiadau i'w cadarnhau).

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiad personol pob ymgeisydd i benderfynu pwy sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl orau, a phwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'r datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Sicrhewch eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf y mae'r panel yn credu sydd wedi dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodwyd yn adran manyleb y person orau fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Fodd bynnag, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweliad, a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd, cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad ac nad yw'r dyddiad eisoes wedi'i nodi yn y pecyn gwybodaeth hwn, ein nod yw rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi o ddyddiad y cyfweliad. Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiad hwnnw, fe wnawn ymdrechu i aildrefnu ond efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu argaeledd y panel dethol.

Fe gewch e-bost gan y system benodi i roi gwybod ichi a ydych wedi eich gwahodd i gyfweliad ai peidio.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi ynghylch eich sgiliau a'ch profiad ac yn gofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni'r meini prawf a osodwyd ar gyfer y swydd ai peidio.

Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu sy'n addas i'w penodi yn cael eu hargymell i'r Gweinidogion, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall y Gweinidog ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os felly, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwlch amser rhwng y cyfweliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a gafodd eu cyfweld yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Os ydych chi'n llwyddiannus, byddwch yn derbyn llythyr yn eich penodi fel aelod o'r Panel Cynghori i Gomisiynydd y Gymraeg, a fydd yn cadarnhau'r telerau y cynigir yr apwyntiad iddynt.

Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg

Caiff penodiadau a wneir i'r Panel Cynghori i Gomisiynydd y Gymraeg eu rheoleiddio gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus, sy'n ystyried y Cod Ymarfer ar gyfer Penodiadau Gweinidogol.

Dyddiad y Cyfweliad

Cynhelir y cyfweliadau yn ystod Medi 2019.

Rhagor o Wybodaeth ac Ymholiadau

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ymgeisio cysylltwch â'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus ar penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

Gwneud cais

I wneud cais ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma: https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-643606d0a1d8/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/

Cliciwch ar y penodiad ac yna cliciwch y botwm 'Gwneud Cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro cyntaf ichi wneud cais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y mae angen ichi gofrestru, a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu hanfon, trwy eich cyfrif.

Unwaith ichi gofrestru, byddwch yn gallu cael mynediad at y ffurflen gais. I wneud cais bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV i adran 'Rhesymau dros ymgeisio' y ffurflen gais ar-lein.

Rhagor o Wybodaeth ac Ymholiadau

Am fwy o wybodaeth am rôl y Panel Cynghori cysylltwch â Alan Jones, Pennaeth Cangen Deddfwriaeth – y Gymraeg ar 03000 256333 neu alan.jones4@llyw.cymru

Os oes angen unrhyw gymorth pellach arnoch i wneud cais am y rôl hon drwy'r broses ymgeisio, cysylltwch â Tîm Penodiadau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru ar penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus

Datganiad am Amrywiaeth
Mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

Cynllun Gwarantu Cyfweliad – Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl
Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu cynllun Cadarn o Blaid Pobl Anabl ac yn croesawu ceisiadau gan bobl sydd ag anableddau. Mae'r cynllun hwn yn sicrhau

cyfweliad i bobl sydd ag anableddau os byddant yn bodloni gofynion sylfaenol y swydd. Mae'r ffurflen gais hefyd yn eich galluogi i nodi unrhyw anghenion penodol sydd gennych neu offer penodol y gall fod ei angen arnoch os cewch wahoddiad i gael cyfweliad.

Dyddiad Cau

Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais yw **Dydd Llun 2 Medi 2019**. Ni fyddwn yn ystyried ceisiadau a ddaw i law wedi'r dyddiad hwnnw.